

Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ty Hywel
Caerdydd
CF99NA

16 Awst 2019

Annwyl Mr George

Diolch am rannu gyda ni ymgynghoriad y Pwyllgor ESS i Datgarboneiddio drafndiaeth. Rydym yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y fframwaith.

- **A yw'r targedau, y polisiau a'r cynigion o ran lleihau allyriadau trafndiaeth (a amlinellir yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel) yn gyflawnadwy ac yn ddigon uchelgeisiol?**

Cyhoeddwyd "Cymru Carbon Isel" ym mis Chwefror eleni. Ym mis Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn derbyn argymhelliad y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 95% erbyn 2050, gan nodi uchelgais i gyflwyno targed i gyflawni allyriadau sero net. Nododd ei bod yn bwriadu cyflwyno rheoliadau i'r Cynulliad y flwyddyn nesaf i ddiwygio'r targed presennol ar gyfer 2050 a chyllidebau carbon a thargedau interim Cymru yn ôl yr angen.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni polisi Llywodraeth Cymru trwy ddatgarboneiddio ein rhwydweithiau trafndiaeth a gwella ansawdd aer y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, gan geisio atal yr effaith negyddol gysylltiedig ar iechyd.

- **A yw gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio trafndiaeth yn ddigon arloesol, yn enwedig o ran eirioli technolegau newydd?**


Mae "Cymru Carbon Isel" yn nodi llawer o enghreifftiau da o ymarfer arloesol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn edrych ledled y DU ac yn fyd-eang i ddysgu gan systemau trafndiaeth eraill, sy'n rhywbeth y mae Trafnidiaeth Cymru mewn sefyllfa dda i'w wneud. Fel y nodir yn y ddogfen, "mae angen i ni annog datblygiad technoleg yng Nghymru a hefyd sicrhau bod Cymru'n cael budd o gynnydd a wneir mewn lleoedd eraill."

Mae Trafnidiaeth Cymru yn croesawu'r cynnig i sefydlu tref trafnidiaeth gyhoeddus gwbl drydanol gyntaf Cymru fel un o'r mentrau mwyaf arloesol o bosibl. Gall ardal Metro De Cymru, yn enwedig Cledrau'r Cymoedd, fod yn lleoliad delfrydol gan y bydd y llinellau rheilffordd wrthi'n cael eu trydaneiddio a gan fod astudiaeth eisoes ar waith yn edrych ar yr opsiynau ar gyfer ynni adnewyddadwy wrth ymyl y cledrau. Bydd y llinellau wedi'u trydaneiddio yn cael eu pweru gyda 100% o ynni adnewyddadwy ac, ynghyd â cherbydau newydd, byddant yn arwain at ostyngiad o 25% mewn allyriadau CO2 ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd. Mae hyn yn dangos y manteision sylweddol y gall trydaneiddio'r rheilffyrdd eu cyflwyno o ran lleihau allyriadau CO2.

Mae'r graff isod o Adroddiad Terfynol Tasglu Datgarboneiddio'r Diwydiant Rheilffyrdd, a gyhoeddwyd gan yr RSSB yn gynharach eleni, yn crynhoi'r allyriadau CO2 ar y prif fathau o gerbydau rheilffordd o wahanol fffynonellau tanwydd:



CO2 Emissions per kWh for Different Fuels



Mae allyriadau CO2 o drenau trydan tua hanner cymaint â'r allyriadau o drenau hybrid neu hydrogen. Mae'r budd hwn yn tyfu dros amser wrth i fwy a mwy o drydan

gael ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy – sy'n esbonio'r ffigur is ar gyfer 2040.

Gallai trydaneiddio y tu hwnt i'r cynlluniau presennol ar gyfer Cledrau'r Cymoedd wneud cyfraniad sylweddol at leihau allyriadau CO2 a darparu gwell gwasanaeth rheilffyrdd sy'n addas i'r dyfodol. Yn "Cymru Carbon Isel", mae Llywodraeth Cymru'n nodi y bydd "yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i ariannu'r gwaith o ddatblygu a chyflawni rhaglen fuddsoddi uchelgeisiol, realistig a theg ar gyfer y rheilffyrdd yng Nghymru, gan gynnwys trydaneiddio rheilffyrdd Cymru".

Yn ogystal, bydd y Trenau o Gerbydau Diesel newydd sydd i'w cyflwyno ar rwydwaith Cymru a'r Gororau yn gallu cael eu newid i system pŵer hybrid neu systemau arloesol eraill, a bydd canolfan arloesi bwrpasol sydd i'w sefydlu gan Wasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru yn sicrhau y bydd datblygiadau'n parhau i gael eu monitro wrth i dechnolegau aeddfedu.

- **Pa gamau sydd angen eu cymryd, a chan bwy, i gyflawni'r targedau, y polisiau a'r amcanion?**

Fel y nodir yn "Cymru Carbon Isel", ni all gweithredu gan y llywodraeth ar ei phen ei hun fynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae angen i bob un ohonom fod yn rhan o hyn a chydweithio ag eraill a chwarae ein rhan i fynd i'r afael â'r her fyd-eang hon.


Ynghyd â datblygu seilwaith a fydd yn lleihau allyriadau, mae angen canolbwyntio ar ymddygiadau, nid yn unig mewn perthynas â thrafnidiaeth gyhoeddus, lle bydd Trafnidiaeth Cymru yn defnyddio llysgenhadon cymunedol i ddatblygu'r cysylltiad rhwng cymunedau lleol a'i rwydwaith rheilffyrdd lleol, a theithio llesol, lle bydd Trafnidiaeth Cymru yn cefnogi gweithgareddau sy'n ceisio rhoi'r Ddeddf Teithio Llesol ar waith, gan gynnwys hyfforddiant, cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth, ond hefyd yn ymwneud â'r farn gyffredinol am gerbydau trydan, lle bydd Trafnidiaeth Cymru yn ymgymryd â phroses gaffael i ddyfarnu consesiwn am ddarparu ac ariannu seilwaith gwefru cerbydau trydan, gan gynnwys mewn gorsafoedd rheilffordd ac ar y rhwydwaith cefnffyrdd. Bydd hyn yn bwysig o ran cyflawni'r targed o sicrhau bod 60% o'r ceir newydd a werthir yng Nghymru yn Gerbydau Allyriadau Isel lawn erbyn 2030.

- **Sut ddylai Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru adlewyrchu'r camau sydd angen eu cymryd i ddatgarboneiddio trafndiaeth?**

Rydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn cael ei harwain gan y nodau a'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi nodi pwysigrwydd mapio sut i gyflawni ein targedau datgarboneiddio ledled Cymru ac mai un o'r gweledigaethau yn y strategaeth newydd fydd integreiddio trafndiaeth yng Nghymru.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda thimau rhanbarthol newydd Llywodraeth Cymru, gydag awdurdodau lleol, gyda'r awdurdodau trafndiaeth rhanbarthol newydd a chyda partneriaid eraill i greu rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus integredig ac i hyrwyddo datgarboneiddio'r sector trafndiaeth gyhoeddus.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "James Price," with a comma at the end. The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

James Price
Prif Weithredwr / Chief Executive